## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/07/2025 i'w hateb ar 09/07/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ62987 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud y mwyaf o fanteision bargeinion dinesig a thwf?

**Peter Fox** *Mynwy*

2 OQ62995 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu band eang ffeibr cyflym yn Sir Fynwy?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OQ62984 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am rôl y sector twristiaeth a lletygarwch yn strategaeth ddiwydiannol y DU?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ62989 **(w)**

Pa fesurau y mae'r Ysgrifennydd y Cabinet yn eu rhoi ar waith i gyflymu'r symudiad tuag at ynni domestig glân?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

5 OQ62983 **(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch ei gynllun datblygu lleol?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

6 OQ62979 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd?

**Vaughan Gething** *De Caerdydd a Phenarth*

7 OQ63005 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni datblygiad Parcffordd Caerdydd yn dilyn yr adolygiad gyda chyd-bartneriaid y fenter y disgwylir iddo ddod i gasgliad ddechrau mis Gorffennaf?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ62990 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warantu darpariaeth cyflenwadau ynni i seilwaith cenedlaethol hanfodol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ63000 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio diwydiant?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ62980 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar fframwaith Llywodraeth Cymru, sef Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

11 OQ62999 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach yng Ngogledd Caerdydd?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ62975 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gryfhau lleisiau cymunedol yn y system gynllunio?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Peter Fox** *Mynwy*

1 OQ62996 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r effaith ar gleifion yn sgil newidiadau arfaethedig diweddaraf Llywodraeth Cymru i ddeintyddiaeth y GIG?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

2 OQ62977 **(e)**

Pa asesiad y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o fynediad at wasanaethau meddyg teulu yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

3 OQ63007 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ofalwyr ifanc?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ62991 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch sicrhau nad yw cyflenwadau dŵr yfed yn peri perygl i iechyd pobl?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OQ63006 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth ysbytai cymunedol yng Ngogledd Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ62993 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio’r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

7 OQ63001 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl y mae colli beichiogrwydd a cholli babanod wedi effeithio arnynt?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

8 OQ62988 **(e)**

Pa fesurau lliniaru y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi trigolion yng nghanolbarth Cymru os bydd canolfan ambiwlans awyr y Trallwng yn cau fel y cynlluniwyd yn 2026?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ63004 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau gwell mynediad at ddeintyddion y GIG ledled Gorllewin De Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

10 OQ62974 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am rôl nyrsys mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11 OQ62992 **(w)**

Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gynyddu'r gefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ62986 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau marwolaethau babanod yng Nghymru?